POLISI
ADDYSG RHYW A PHERTHYNAS

YSGOL Y CREUDDYN

Dyddiad y Polisi: Ionawr 2011

Dyddiad Adolygu: Ionawr 2015

Cyflwyniad

Mae’r polisi hwn yn mynd i’r afael â’r gofynion cyfreithiol ynghylch ARhPh mewn ysgolion yn Neddf Addysg 1996. Mae ein polisi blaenorol (Gorffennaf 2007) wedi ei adolygu i gymryd ystyriaeth o’r strategaethau cenedlaethol canlynol a chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- Cynllun Gweithredu Iechyd a Lles Rhywiol, 2010 -2015
- Canllawiau ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd (ARhPh) yn yr ysgolion (2010)
- Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed.

Cysylltiadau â pholisïau eraill

Ni ddylid edrych ar y polisi hwn ar ei ben ei hun gan fod ganddo gysylltiadau clir â’r polisïau ysgol canlynol:

- Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh)
- Cyfrinachedd
- Diogelu/amddiffyn plant
- Atal bwlio
- Cydraddoldeb ac amrywioldeb
- Polisi CYSAG AALl Conwy ar gyfer Addysg Grefyddol.

Ymgynghorwyd â’r canlynol wrth drefnu'r polisi cyfredol:

- Cydlynydd ABCh
- Ymgynghorydd Iechyd Pobl Ifanc
- Nyrs ysgol
- Swyddog Amddiffyn Plant Ysgol Y Creuddyn
- Y Cyngor Ysgol
- Grwpiau ffocws o ddisgyblion
- Yr Athrawon a'r Llywodraethwyr
- Swyddog Cyswllt â'r Ysgol, Heddlu Gogledd Cymru

Rhesymeg

Mae Ysgol Y Creuddyn yn anelu i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys sy’n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol, emosiynol a chorfforol bob dysgwr ac sy’n eu paratoi ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a heriau bywyd fel oedolyn.

Mae llywodraethwyr a staff ein hysgol yn cydnabod fod gennym gyfrifoldeb cyfreithiol i ddarparu ABCh i bob dysgwr a gofrestrwyd a chredant fod ysgolion yn chwarae rhan bwysig wrth gael effaith gadarnhaol a chyson ar iechyd a lles rhywiol pobl ifanc.

Addysgir ARhPh yn ein hysgol yng nghyd-destun y cwricwlwm cenedlaethol a Fframwaith ARhPh Cymru. Credwn y bydd rhaglen ARhPh a gynlluniwyd yn dda, yn seiliedig ar sgiliau a chytbwys yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth i ddysgwyr i wneud dewisiadau diogel a chyfrifol wrth iddynt dyfu i fyny.

Rydym yn cydnabod ein bod yn byw mewn cymdeithas amrywiol ac y bydd dysgwyr yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd teulu. Bydd ein rhaglen ARhPh yn anelu i fod yn sensitif a pharchu gwahaniaethau wrth alluogi dysgwyr i ddeall pwysigrwydd amgylchedd sefydlog, diogel a chariadus ar gyfer bywyd teuluol.

Nodau

Bydd ein rhaglenni astudio yn anelu i helpu dysgwyr i symud o blentyndod trwy lencyndod i oedolaeth:

- Datblygu agweddau cadarnhaol a gwerthoedd sy'n dylanwadu ar y ffordd maent yn ymddwyn
- Datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i wneud penderfyniadau cyfrifol a gwybodus am iechyd a lles rhywiol
- Deall agweddau corfforol ac emosiynol rhyw, rhywioldeb ac iechyd a lles rhywiol
- Deall amrywioldeb o fewn tueddfryd rhywiol a dathlu gwahaniaeth
- Sefydlu perthnasau llwyddiannus
- Gwerthfawrogi pwysigrwydd perthnasoedd personol sefydlog a chariadus
- Adnabod y gwahaniaeth rhwng perthnasoedd priodol a rhai sy'n ecsbloetio a rhai sy'n gamdriniol
- Deall y canlyniadau posib a risgiau gweithgaredd rhywiol a gwerthfawrogi manteisio oedi gweithgaredd rhywiol
- Deall y cyfreithiau mewn perthynas ag ymddygiad rhywiol

- Gwybod sut i gael cyngor a chefnogaeth briodol ar iechyd rhywiol a materion perthynas

Rheolaeth a threfniant ARhPh

- Bydd y corff llywodraethol yn monitro gweithrediad y polisi ARhPh a'i adolygu bob tair blynedd neu'n amlach os nodir materion gan staff, rhieni a neu ganllawiau cenedlaethol/sirol.
- Bydd y pennaeth yn sicrhau y gweithredir y polisi a darparu datganiad ysgrifenedig i'r corff llywodraethol fel rhan o'i adroddiad blynyddol. Bydd y pennaeth hefyd yn gyfrifol am ymgynghori gyda rhieni a'u hysbysu o'u hawl i dynnu eu plentyn o wersi ARhPh
- Bydd y cydlynydd ABCh, Mrs Owain Gethin Davies, a'r Cyswllt ABCh (Pennaeth Cynorthwyol) Mr Arwel Roberts yn gyfrifol am faterion Addysg Rhyw a pherthnasedd:

    - Cydlynu a ffurfio polisi ARhPh yr ysgol drwy gynnwys cyfraniad pawb all gyfrannu iddo yn ôl polisi ARhPh AALl Conwy.
    - Adolygu'r polisi, ei newid a'i ddiwygio os bydd angen o leiaf bob tair blynedd
    - Rhoi gwybod i'r holl staff ac oedolion fydd yn cyflwyno ARhPh yn yr ysgol am gynnwys y polisi a'u goblygiadau hwy fel darparwyr
    - Ffurfio rhaglen astudio a thrafod gyda chydweithwyr i sicrhau darpariaeth ar draws yr ysgol
    - Monitro a gwerthuso'r cynllun gwaith gyda'r arweinwyr pwnc mewn Gwyddoniaeth ac Addysg Grefyddol a gofalu bod yr holl ofynion statudol yn cael eu cyflawni.
    - Trafod gydag ysgolion cynradd sy'n bwydo i sicrhau dilyniant darpariaeth ar draws pob cyfnod allweddol
    - Trafod gydag arweinwyr pwnc i sicrhau fod pob gofynion statudol wedi eu cyfarfod.
    - Monitro ac arfarnu'r rhaglen astudio a'r adnoddau a ddefnyddiwyd
    - Ymgynghori gyda dysgwyr
    - Trafod gydag asiantau allanol a chydlynu eu hymwneud â'r rhaglen ARhPh
    - Trin anghenion DPP staff sy'n cyflwyno'r rhaglen

Cyflwyno'r rhaglen ARhPh

Mae ARhPh yn ffurfio rhan o ddarpariaeth ABCh yr ysgol yn CA3, CA4 a CA5 gyda gwyddoniaeth ac addysg grefyddol yn cyfranu at agweddau penodol. Bydd y cydlynydd ABCh yn gyfrifol am ddatblygu'r fframwaith ar gyfer cyflwyno ARhPh a darparu cefnogaeth i athrawon sy'n cyflwyno'r rhaglen

- Bydd athrawon fel arfer yn gyfrifol am ddarparu'r rhaglen, ynghyd â chefnogaeth gan y nyrs ysgol.

- Addysgir ARhPh mewn grwpiau rhyw cymysg gyda chyfleoedd ar gyfer sesiynau dilynol unigol gyda'r nyrs ysgol
- Pan fo'n ymarferol, bydd yr ysgol yn cymryd rhan mewn rhaglenni ychwanegol a gefnogir gan y sir e.e. rhaglenni addysg cyfoed, cynlluniau theatr mewn addysg.

Cynnwys y rhaglen ARhPh

Mae'r rhaglen ARhPh ar gyfer pob grŵp blwyddyn ar y map cwricwlwm sydd ynghlwm. Mae cynlluniau manylach ar gael yn y cynlluniau ABCh.

Materion iechyd rhywiol penodol

Addysgir ARhPh o fewn fframwaith gwerthoedd eang ac ni fydd credoau ac agweddau personol athrawon yn dylanwadu ar addysgu ARhPh. Rydym yn deall efallai y bydd gan ddisgyblion a'u teuluoedd farn ac agweddau cryf tuag at faterion megis erthylu ac atal cenhedlu a bydd athrawon bob amser yn ymdrechu i sicrhau fod trafodaethau dosbarth ar faterion sensitif yn rhoi cyfle i ddysgwyr archwilio a gwerthfawrogi dilysrwydd safbwyntiau sy'n gwrthwynebu wrth fod yn sensitif i brofiadau personol a chredoau'r holl ddysgwyr. Byddwn yn anelu i sicrhau y defnyddir iaith briodol, anwahaniaethol, gyson gan athrawon a gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n cyfrannu at y rhaglen ARhPh a bod dysgwyr yn cael eu hannog i ddefnyddio'r un termau yn ystod gwersi.

Adnoddau

Yn CA3 a 4 bydd 'SENSE – gwneud synnwyr o ryw a pherthynas' yn darparu'r sail ar gyfer cyflwyno'r rhaglen ARhPh. Bydd athrawon hefyd yn defnyddio syniadau, cyfranwyr sy'n ymweld ac adnoddau a ddarparwyd neu argymhellion gan y sir a'r nyrs ysgol pan fo'n briodol. Bydd yr ysgol yn sicrhau fod yr holl adnoddau a ddefnyddir yn gynhwysol ac yn hyrwyddo parch at amrywioldeb.

Cyfrinachedd

Ni all athrawon / disgyblion a gweithwyr iechyd proffesiynol gynnig cyfrinachedd diamod i ddysgwyr yn ARhPh.

- Os yw athro yn clywed neu'n gweld rhywbeth yn ystod gwersi ARhPh sy'n awgrymu fod dysgwr mewn risg o niwed difrifol neu achosi niwed difrifol i eraill byddant yn hysbysu'r aelod dynodedig o staff sy'n gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn plant (Mr Arwel Roberts / Mrs Manon Williams)

- Bydd y defnydd o reolau sylfaenol cytunedig ym mhob dosbarth yn creu ffiniau clir, gan atal dysgwyr rhag rhannu gwybodaeth bersonol yn y dosbarth a sicrhau fod pawb yn teimlo parch ac yn ddiogel
- Bydd athrawon yn annog dysgwyr i roi eu cwestiwn mewn bocs cwestiynau a fydd yn rhoi 'amser meddwl' i staff cyn ateb
- Os codir cwestiynau o natur bersonol bydd dysgwyr yn cael eu hannog, ble'n bosibl, i siarad â'u rhieni/gofalwyr a/neu ofyn am gymorth gan asiantau cefnogi priodol
- Bydd athrawon yn sicrhau fod dysgwyr yn cael eu hysbysu ynghylch ffynonellau cymorth cyfrinachol, e.e. y nyrs ysgol, cwnselydd ysgol, meddyg teulu a llinellau cymorth priodol megis Childline

Cynnwys dysgwyr

Mae'r ysgol yn ymroddedig i ddarparu ARhPh sy'n gynhwysol ac yn briodol i bob dysgwr. Byddwn yn ceisio barn dysgwyr trwy dechnegau asesu ar gyfer dysgu a holiaduron arfarnu a bydd y strategau canlynol yn sicrhau fod y rhaglen yn cyfarfod anghenion pob dysgwr:

- Bydd dysgwyr yn cael cyfle i weithio mewn grwpiau rhyw sengl ble'n briodol
- Defnyddir amrywiaeth o strategau dysgu ac addysgu gan gynnwys: trafodaeth grŵp a datrys problemau, chwarae rôl, astudiaethau achos, myfyrio unigol, ymchwilio gwybodaeth, addysg gyfoed a theatr mewn addysg
- Bydd yr adnoddau a ddefnyddir yn adlewyrchu safbwyntiau amrywiaeth o gefndiroedd diwylliannol a chrefyddol ac amrywioldeb o fewn tueddfryd rhywiol
- Bydd yr ysgol yn ymdrechu i sicrhau fod plant dan ofal, gofalwyr ifanc ac eraill a all golli cyfleoedd i ddysgu yn cael gwybodaeth briodol

Datblygiad proffesiynol parhaus

- Bydd staff allweddol sy'n addysgu ARhPh yn cael cyfle i fynychu cyrsiau hyfforddiant priodol
- Bydd yr ysgol yn rhannu ymarfer da trwy arsylwadau dosbarth, CDP a thrafodaethau mewn cyfarfodydd staff.

Gweithio gyda rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach

Mae gan rieni/gofalwyr hawl i dynnu eu plentyn o addysg rhyw a gofynnir i'r rhai sy'n dymuno defnyddio'r hawl hwn hysbysu'r pennaeth yn ysgrifenedig. Mae'r ysgol yn edrych ar Addysg Rhyw a Pherthynas fel cyfrifoldeb i'w rannu, a rhoddir gwybodaeth i'r rhieni am y Polisi, y rhaglen waith a'r adnoddau a ddefnyddir os a ddymunir. Os oes gan riant/gofalwyr bryder mae croeso iddynt drefnu i drafod gyda'r Pennaeth.Mae'r trefniant

hwn wedi ei nodi yn llawlyfr yr Ysgol. Bydd yr ysgol yn y dyfodol yn ymgynghori â rhieni ar y rhaglen trwy roi gwybodaeth ar wefan yr ysgol a chynnal nosweithiau rhieni.

Cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol ac asiantau allanol

Gofynnir i'r nyrs ysgol gyfrannu at gyflwyno'r rhaglen ARhPh a bydd ar gael i gynnal sesiynau dilynol i ddysgwyr unigol. Gofynnir i holl weithwyr proffesiynol sy'n cefnogi cyflwyniad ARhPh weithio o fewn ffiniau polisi'r ysgol. Pan fo gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda disgyblion unigol y tu allan i'r dosbarth byddant yn gweithredu o fewn paramedrau eu cod cyswllt proffesiynol.

Monitro a gwerthuso

- Mae'r cydlynydd ABCh yn gyfrifol am fonitro safonau dysgu ac addysgu ARhPh
- Bydd y Pennaeth Cynorthwyol yn sicrhau fod canfyddiadau o arfarniadau staff, rhieni a dysgwyr yn cyfrannu at broses hunan arfarnu'r ysgol ac at broses adolygu'r polisi.

Trefniadau ar gyfer adolygu a diweddaru'r polisi

- Cytunodd staff/llywodraethwyr ar y polisi ar ……..
- Roedd barn disgyblion ar ddarpariaeth ARhPh yn rhan o'r adolygiad polisi ac fe'i ceisiwyd trwy:

✓ Ymgynghori â'r Cyngor Ysgol
✓ Trafodaeth gyda disgybl lywodraethwyr

Adolygir y polisi yn 2014

Deilliannau Dysgu Cyfnod Allweddol 3 Iechyd a Lles

Dylai roi cyfle i'r dysgwyr:

- ddangos agwedd gyfrifol at gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach.
- ddatblygu agwedd cadarnhaol atynt hwy eu hunain ac at bobl eraill.

A deall:

- Y gyfraith sy'n ymwneud ag agweddau ar ymddygiad rhywiol
- Am atal cenhedlu, heintiau rhywiol a drosglwyddir yn rhywiol a HIV o fewn cyd-destun perthnasoedd
- Nodweddion perthnasoedd diogel a'r rhai a all arwain at gamdriniaeth
- Rôl priodas, pwysigrwydd perthnasoedd teulu sefydlog a chyfrifoldebau rhieni
- Yr ystod o emosiynau y maent yn eu profi a sut i ddatblygu strategaethau ar gyfer
  ymdopi a theimladau negyddol
- Y manteision o gael mynediad i wahanol ffynonellau o wybodaeth, cymorth a chyngor

Datblygiad Moesol ac Ysbrydol

Deall:

- Y gwerthoedd sy'n dda ac sy'n ddrwg yn eu barn hwy, a'r problemau moesol sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd bywyd
- Eu credoau yng nghyd-destun y rheiny sy'n bodoli yn y gymdeithas

Blwyddyn	Testun	Arweiniad
7	Glasoed-Newid Corfforol Sut i ymdopi gyda newid Hylendid Personol	Athrawon ABCh Siaradwyr allanol
8	Gwahanol fathau o berthnasoedd	Athrawon ABCh
9	Y gyfraith sy'n ymwneud ag agweddau ar ymddygiad rhywiol Atal Cenhedlu – Heintiau a drosglwyddir yn rhywiol a HIV o fewn cyd-destun perthnasoedd Nodweddion perthnasoedd diogel a'r rhai a all arwain at gamdriniaeth	Athrawon ABCh Asiantaethau Allanol e.e. 'What Shall I Tell Mum?'

Deilliannau Dysgu Cyfnod Allweddol 4 Iechyd a Lles

Dylai roi cyfle i'r dysgwyr:

- dderbyn cyfrifoldeb personol am gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach.
- ddatblygu agwedd gyfrifol at gydberthnasau personol.

A deall:

- Y canlyniad byrdymor a'r canlyniad mwy hirdymor wrth wneud penderfyniadau am eu
  hiechyd personol.
- Yr ystod o agweddau, cydberthnasau ac ymddygiad rhywiol a geir mewn cymdeithas.
- Pwysigrwydd iechyd rhywiol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch rhywiol, gan
  gynnwys achosion posibl o ecsbloetio rhywiol
- Y nodweddion sy'n perthyn i fod yn rhiant effeithiol, ac effaith colled a newid ar gydberthnasau
- Y mudiadau statudol a gwirfoddol sy'n hybu iechyd a lles emosiynol.
- Sut i gael mynediad i gymorth personol a chyngor proffesiynol ynghylch iechyd yn
  hyderus

Datblygiad Moesol ac Ysbrydol

Deall:

- Sut y mae credoau a gwerthoedd yn effeithio ar ffordd o fyw a hunaniaeth bersonol.
- Y ffactorau sy'n ymwneud a llunio barn foesol.
- Yr ystod o werthoedd ac egwyddorion sy'n llywio bywyd pobl.
- Y gwerthoedd sy'n dda ac sy'n ddrwg yn eu barn hwy, a'r problemau moesol sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd bywyd
- Eu credoau yng nghyd-destun y rheiny sy'n bodoli yn y gymdeithas

10	Cyflwyno mathau gwahanol o atal cenhedlu a'u heffeithiolrwydd Yr ystod o agweddau, cydberthnasau ac ymddygiadau rhywiol a geir	Athrawon ABCh Siaradwyr gwadd

	mewn cymdeithas • Pwysigrwydd Iechyd rhywiol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch rhywiol • Achosion o ecsbloetio rhywiol Nodweddion rhiant effeithiol	
11	Nodweddion newid ar gydberthnasau	Athrawon ABch Siaradwyr gwadd

Deilliannau Dysgu Cyfnod Allweddol 5 Iechyd a Lles

Ôl 16	Gwybod a deall canlyniadau posibl gweithgarwch rhywiol iddynt hwy eu hunain a'u cydberthnasau personol	Athrawon ABCh Siaradwyr gwadd

Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthynas yn yr ysgol

ABCh 2008

Dysgir Addysg Rhyw a Pherthynas yn Ysgol Y Creuddyn o fewn cyd-destun Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol ac amcanion penodol Addysg Rhyw a Pherthynas yr ysgol fydd cynorthwyo a chefnogi disgyblion yn eu datblygiad corfforol, emosiynol, moesol ac ysbrydol.

Yn yr ysgol hon credwn fod Addysg Rhyw a Pherthynas yn hanfodol os yw pobl ifanc am lwyddo i wneud penderfyniadau daeth a deallus ar gwrs bywyd a chefnogwn:

Dulliau Cyflwyno Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthynas yn yr ysgol

Swyddogaeth y Cydlynydd ABCh a'r Arweinydd Pwnc ydy monitro dulliau cyflwyno addysg Rhyw a Pherthnasoedd

Nod yr ysgol fydd cynnig rhaglen drefnus gynlluniedig i ymdrin â Rhyw a Pherthynas. Cyflwynir gwersi addysg gan aelodau o'r staff fydd wedi eu hyfforddi i gyflwyno Addysg Rhyw a Pherthynas h.y. mewn gwersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Gwyddoniaeth ac Addysg Grefyddol, a'u hatgyfnerthu gan siaradwyr gwadd, Ymgynghorydd Iechyd Pobl Ifanc, mewnbwn traws gwricwlaidd a gweithgareddau all-gwricwlaidd e.e. Ffeiriau Iechyd.

Cred yr ysgol fod ei Raglen Addysg Rhyw a Pherthynas yn cefnogi disgyblion drwy gyfnod eu datblygiad corfforol, emosiynol, moesol ac ysbrydol ac yn eu helpu i wneud penderfyniadau cyfrifol deallus ynghylch eu bywydau. Mae'n atgyfnerthol a chefnogol i rôl rhieni/gwarcheidwaid/gofalwyr. Mae manylion y rhaglen a rhestr o'r adnoddau a gymeradwywyd gan y Corff Llywodraethol i'w cael yn yr ysgol.

- **Gweithio gyda Rheini /Gwarchodwyr/Gofalwyr**

  Mae'r ysgol yn edrych ar addysg Rhyw a Pherthynas fel cyfrifoldeb i'w rannu, a rhoddir gwybodaeth i'r rhieni am y Polisi, y rhaglen waith a'r adnoddau a ddefnyddir, e.e. gwahoddir rhieni i Ffair Iechyd blynyddol Blwyddyn 7.

- **Darparu Hyfforddiant**

  Dynodir anghenion hyfforddiant drwy gyfrwng yr adolygiad blynyddol i ddatblygiad staff a gynhelir gyda'r Pennaeth a'r adolygiadau Rheoli Perfformiad blynyddol gyda'r arweinwyr tîm. Dadansoddir anghenion Datblygiad Staff yng nghyd-destun Cynllun Datblygu'r Ysgol.

- **Adnoddau**

  Ceir amlinelliad o'r rhestr gynhwysfawr o'r adnoddau a argymhellir i'w defnyddio ym mhob cyfnod allweddol ym mholisi RhaPh a chanllawiau AALl Conwy (2004). Mae adnoddau Ysgol Y Creuddyn yn seiliedig ar y rhestr hon ac mae amlinelliad ohonynt yng nghynllun gwaith yr ysgol.

Caiff unrhyw adnoddau newydd eu hadolygu'n ofalus gan y Cydlynydd Addysg Bersonol a Chymdeithasol, staff addysgu RhaPh a thîm rheoli'r ysgol cyn eu defnyddio gyda'r disgyblion. Defnyddir amrywiaeth o adnoddau, yn cynnwys posteri, DVDs, fideo, adnoddau ar y we, gemau bwrdd, cit atal cehedlu ar gyfer athrawon. Mae pamffledi ar gael i fyfyrwyr hefyd.

- **Cysylltiadau rhwng Cyfnodau Allweddol**

Mae gan yr ysgol gysylltiadau priodol a chydweithrediad agos gyda'r ysgolion cynradd cyflenwol er mwyn sicrhau dilyniant a datblygiad o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 a gofalu bod darpariaeth effeithiol.

- **Rôl Darparwyr Allanol**

Mae'r ysgol yn sylweddoli gwerth cyfraniad asiantaethau allanol priodol a siaradwyr gwadd i lwyddiant rhaglen ARhPh. Ond serch hynny rhaid i'r siaradwyr hyn wybod beth yw cynnwys polisi'r ysgol a'r canllawiau a luniwyd i'w gyflwyno. Os daw asiantaethau allanol neu unigolion dieithr i gynnig eu gwasanaeth dylid gofyn yn gyntaf am gyngor proffesiynolwyr Iechyd cyn eu derbyn.

Bydd copi o'r uchod ar gael yn yr ysgol.

Gweithdrefnau Monitro a Gwerthuso

Bydd dulliau gweithredu'r polisi yn cael eu monitro gan Cydlynydd Addysg Bersonol a Chymdeithasol/Arweinydd Pwnc. Ymgynghorir â'r bobl hyn pan adolygir y polisi:

• Disgyblion
• Cyngor yr ysgol
• Rhieni/Gwarcheidwaid/Gofalwyr
• Athrawon
• Llywodraethwyr
• Gweithwyr Proffesiynol Iechyd,
• Asiantaethau Allanol

- **Cysylltiadau gyda Pholisïau a Gweithdrefnau Eraill**

Mae holl ddarparwyr Addysg Rhyw a Pherthynas Ysgol Y Creuddyn yn ymwybodol o gynnwys polisïau'r ysgol parthed:

• Addysg Bersonol a Chymdeithasol
• Cyfleoedd Cyfartal
• Gwrth-fwlio
• Cyffuriau ac Alcohol
• Dinasyddiaeth
• Rheolau Gwyddoniaeth Cwricwlwm Cenedlaethol

Mae’r holl ddarparwyr yn gyfarwydd â:

• Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru a Phrotocol AALl Sir Conwy)
• Polisi Cytunedig Addysg Grefyddol CYSAG AALl Conwy.
• Rheolau Gwyddoniaeth Cwricwlwm Cenedlaethol

Rhannu’r polisi gydag eraill

Mae copi o’r polisi hwn ar gael i athrawon, myfyrwyr ac ymwelwyr a darparwyr allanol.
Copi o’r polisi ar gael i rieni ar gais.
Copi i’r AALl ac ESTYN drwy law y Pennaeth.

Paratowyd y polisi gan: Arweinydd Pwnc, AALl Conwy

Trafodwyd gyda’r Staff:…….. …

Cytunwyd gyda’r Llywodraethwyr:……

Enwau’r unigolion â chyfrifoldeb am Addysg Rhyw a Pherthnasoedd:

Arwel Roberts –Pennaeth Cynorthwyol

Owain Gethin Davies - Cyd-gysylltydd ABCh

Adolygir y polisi hwn bob 3 blynedd.

6.10 CYNLLUN GWAITH - Gweler y ddogfen atodol.

YMATEB PENODOL I FATERION SENSITIF

Ni ddylai credo personol ac ymagweddiadau athrawon effeithio ar y modd y cyflwynir Addysg Rhyw a Pherthynas. Bydd athrawon yn gosod rheolau sylfaenol a dylid annog disgyblion i barchu barn a ffordd o fyw pobl eraill. Rhaid i athrawon geisio ymdrin â chwestiynau o natur sensitif mewn modd yr un mor sensitif, didwyll a diwahaniaethol.
Bydd cyflwynwyr Addysg Rhyw a Pherthynas yn dangos yn glir bod y rheolau a osodir i aelodau'r grŵp yr un mor berthnasol i'r athrawon eu hunain/arweinydd grŵp ac unrhyw ymwelwyr ddaw atynt.

Bydd y staff yn ymdrechu i ddiwallu anghenion pob plentyn ac i ddelio'n ddoeth gyda materion o natur sensitif. Ymdrinnir â'r materion canlynol yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4.

Aeddfedrwydd
Mae gofyn paratoi bechgyn a genethod ar gyfer eu cyfnod aeddfedrwydd drwy roi iddynt wybodaeth a hyder fydd yn eu cynorthwyo i wynebu'r newidiadau corfforol ac emosiynol perthynol.

Mislif
Dylai bechgyn a genethod gael dysgu am gyflwr mislif a threfniadau sensitif a phwrpasol gael eu gwneud ar gyfer anghenion genethod.

Atal cenhedlu
Mae gan Addysg Rhyw a Pherthynas a gyflwynir yn effeithiol mewn Ysgol Uwchradd swyddogaeth bwysig yn yr ymdrech i leihau beichiogrwydd ymhlith merched ifanc oed ysgol. Caiff disgyblion wybodaeth drylwyr am wahanol fathau o ddulliau atal cenhedlu, a hynny'n cynnwys dulliau atal cenhedlu brys a'u heffeithiolrwydd. Rhoddir arweiniad ychwanegol ar sut i gael cyngor cyfrinachol, cyngor ymarferol, ac os bydd ei angen triniaeth briodol. Rhaid cadw cydbwysedd deallus rhwng cadw at lythyren y ddeddf a'r angen i gynnig cyngor sensitif a thriniaeth.

Erthyliad neu derfynu beichiogrwydd
Dylai cynnwys rhaglen Addysg Rhyw a Pherthynas alluogi disgyblion i wybod manylion erthyliad a deall y goblygiadau, gwerthfawrogi sail gwahanol ddaliadau, a datblygu sgiliau cyfathrebu fyddai'n hwyluso'r dasg o drafod gyda rhieni a phroffesiynolwyr iechyd. Dylid parchu argyhoeddiad crefyddol plant a'u rhieni.

Rhyw Diogel a Heintiau Trosglwyddiad Rhywiol gan gynnwys HIV/AIDS
Rhoddir i ddisgyblion uwchradd wybodaeth ffeithiol am rhyw diogel a heintiau a drosglwyddir drwy weithred rywiol. Bydd hyn yn eu galluogi i ddefnyddio'n effeithiol y gwasanaethau sy'n helpu i atal/i drin STI's a HIV/AIDS. Deuant i ddeall beth sy'n arfer peryglus ac i feithrin sgiliau pendantrwydd mewn perthynas ag eraill ac i osgoi cael eu dylanwadu, yn groes i'w graen, i gymryd rhan mewn gweithred rywiol neu weithred rywiol ddiamddiffyn.

Tueddiadau Rhywiol
Anogir disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth deimladol a pharch tuag at eraill waeth beth fo'u tueddiadau rhywiol. Fe'u cefnogir i barchu cyd-ddyn a chydnabod bod amrywiaeth a gwahaniaethau yn bodoli mewn bywyd dynol.